



**CORONATION
GARDENS**
For food & nature

Garddio mewn llefydd bach



Mae llefydd bach hyd yn oed yn gallu bod yn hafan i fywyd gwyllt...

Er bod llawer o bobl yn breuddwydio am gael gerddi enfawr yn llawn lliw a bywyd, rydyn ni'n gwybod nad ydi hynny bob amser yn ymarferol nac yn bosibl. Ond os oes gennych chi silff ffenest heulog, balconi, iard gefn fechan neu lawnt maint stamp post, mae llawer o ffyrdd i chi wneud y gorau o'ch llecyn. Daliwch ati i ddarllen am awgrymiadau a chynghorion defnyddiol...


Yn y canllaw yma, fe welwch chi'r canlynol:

- 3 Pam mae treulio amser ym myd natur yn llesol i chi
- 4 Bocsys ffenestri gwyh
- 6 Balconïau bendigedig
- 8 Calendr tynnu allan
- 10 Gerddi godidog
- 12 Glorious gardens
- 14 Ble i ddod o hyd i ragor o wybodaeth
- 15 Am y cynllun Gerddi'r Coroni ar gyfer Bwyd a Natur



Except where noted and excluding images, company and organisation logos, this work is shared under a Creative Commons Attribution 4.0 (CC BY 4.0) Licence

Please attribute as: "Coronation Gardens for Food and Nature by The Wildlife Trusts funded by The National Lottery Heritage Fund, licensed under CC BY 4.0



Pam mae treulio amser ym myd natur yn llesol i chi!

Mae **tystiolaeth yn dangos** bod amgylchedd ffyniannus, sy'n llawn bywyd gwyllt, o fudd i iechyd corfforol a meddyliol. Mae pobl sydd â natur ar garreg eu drws yn fwy actif, yn wytnach yn feddyliol ac mae eu hiechyd yn well yn gyffredinol.

Mae wedi cael ei brofi bod treulio amser ym myd natur yn lleihau straen, yn gwella hwyliau pobl ac yn hybu'r gallu i ganolbwyntio. Yn gorfforol, mae'n gostwng pwysedd gwaed a gall gryfhau'r system imiwnedd hyd yn oed drwy ddod i gysylltiad â micro-organebau buddiol.

Mae iechyd a lles pobl yn cael eu gwella drwy sicrhau bod llefydd naturiol sy'n llawn bywyd gwyllt yn hawdd eu cyrraedd lle maen nhw'n byw ac

yn gweithio. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae mynediad at natur ar ei waethaf, a lle mae'r pwysau ar wasanaethau iechyd ar ei fwyaf. Mae cyflwr ein cymdogaethau ni'n effeithio'n uniongyrchol ar ba mor hir y bydd pobl yn byw, ac ansawdd eu bywydau. Mae materion fel ansawdd aer, effeithiau newid hinsawdd a faint o fyd natur allwn ni ei fwynhau ar garreg ein drws i gyd yn effeithio ar ein hiechyd.

A gyda dim ond 35% o gartrefi ag incwm blynyddol o dan £10,000 o fewn 10 munud ar droed i lecyn gwyrdd naturiol sydd ar gael i'r cyhoedd, mae'n rhaid i rywbeth newid. Dyma pam mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn gweithio i ddod â bywyd gwyllt at fwy o bobl, a mwy o bobl at fywyd gwyllt.



KENNY ELIASOVIUNSPASH

Bocsys ffenestri gwych

Gall bocsys ffenestri sydd wedi'u gosod ar du allan eich fflat neu dŷ edrych yn hyfryd, ond mae'n rhaid i chi ofalu eich bod yn eu gosod yn eu lle yn ddiogel. Pan maen nhw wedi'u llenwi â phridd maen nhw'n drwm iawn.

Ond ni ddylai unrhyw beth eich stopio chi rhag llenwi silffoedd eich ffenestri y tu mewn gyda phlanhigion - os ydych chi'n gallu agor eich ffenestri'n llydan ar ddyddiau cynnes, fe fyddwch chi'n dal i gynnig lle i unrhyw bryfed sy'n mynd heibio stopio.

Dyma rai awgrymiadau pellach er mwyn i chi gael y gorau o'ch llecyn bach:



Dewiswch blanhigion sy'n hoffi tyfu yn yr un amodau.



Gwnewch yn siŵr bod draeniad da ond byddwch yn ofalus i beidio â gorddyfrio.

CAPAN CORNICYLL



GLAS YR YD



MELYN MAIR



DANT Y LLEW



TAFOD YR YCH

Cinio capan cornicyll?

Er na fyddwch chi'n gallu tyfu cnwd o datws ar silff eich ffenest mewn cafnau dwfn, oeddech chi'n gwybod bod llawer o flodau'n fwytdwy, yn ogystal â denu (ac atal) pryfed, gwella peillio, a darparu gwrtaith a blodau am ddim!

Mae Garden Organic yn dweud:

■ Y petalau yw'r darnau gorau: gall coesyndau, briger a darnau eraill sydd fel llinyn flasu'n chwervu.

■ Mae'n well casglu blodau bwytdwy yn y bore. Cadwch nhw'n ffres mewn twb plastig yn yr oergell.

■ Peidiwch â chasglu'r holl flodau o'ch bocs ffenest. Gadewch rai i'r pryfed!

■ Gwybod beth rydych chi'n ei dyfu! Ewch ati i adnabod unrhyw flodau rydych chi eisiau eu bwyta bob amser - os oes gennych chi unrhyw amheuaeth, peidiwch â gwneud hynny.

Gweithredu dros Bryfed!

Gallai eich bocys ffenest fod yn stop hanfodol i bryfed sy'n mynd heibio. Mae'n well gan bryfed peillio flodau heb betalau cymhleth neu flodau dwbl. Er na allwch chi fwyta blodau wŷ wedi'i botsio, er gwaethaf yr enw, maen nhw'n gwneud arddangosfa siriol mewn cynhwysydd ac mae pryfed wrth eu bodd gyda nhw. Gallech chi hefyd roi cynnig ar raeadr o eiddew, mathau cynhwysydd o ffwysias, perlysiau sy'n tyfu'n isel fel penrhudd a them, a pheidiwch ag anghofio am

y gaeaf a dechrau'r gwanwyn - mae saffrwm sy'n blodeuo yn y gaeaf yn edrych yn wych mewn bocsys ffenestri ac ar silffoedd ffenestri.



PENRHUDD



“

Rydw i wrth fy modd gyda thrychfilod bach (infertebrata). Maen nhw'n gwneud cymaint i bobl. Rydw i'n galw'r rhai yn fy ngardd i'n fy helpars bach. Mae nifer y cacwn blewog a'r pryfed hofran swnllyd sy'n peillio ein tomatos ni a'n pys a'n ffa wedi gostwng 18% ers 1970. Mae'r gweision y neidr cain, y chwilod sgleiniog a'r gwenyn meirch streipiog sy'n cadw nifer y pryfed a'r lindys dan reolaeth wedi gostwng 34%. Maen nhw angen helpars mawr (ni fel pobl!) i roi lle bach iddyn nhw. Gall bocys ffenest wneud gwahaniaeth mawr i'n helpars bach ni.”

Sara Booth-Card, Ymgyrchydd gyda'r Ymddiriedolaethau Natur.

Balconiau bendigedig

Mae 5.4 miliwn o bobl yn y DU yn byw mewn fflatiau, a llawer ohonyn nhw gyda balconïau. Gall y rhain dyfu amrywiaeth anhygoel o bethau a fydd yn darparu bwyd i chi ac i fywyd gwyllt.

Ystyriaethau ymarferol

- ✓ Lechyd a diogelwch! Gall cynwysyddion sy'n llawn pridd fod yn drwm iawn. Peidiwch â gorlwytho'ch balconi.
- ✓ Gall gwyntoedd cryfion niweidio'ch planhigion chi a chwythu'ch cynwysyddion a'ch dodrefn gardd i ffwrdd. Gwnewch yn siŵr bod popeth wedi'i ddal yn ei le yn ddiogel. Ystyriwch wneud neu brynu sgriniau syml i leihau gwynt.
- ✓ Dydi balconïau ddim yn cael digon o law yn aml, felly gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gallu cyrraedd popeth fydd angen ei ddyfrio.



Cnydau'r cysgod

Os oes gennych chi falconi sydd ond yn cael haul yn rhannol, rydych chi mewn lwc! Mae llyisiau salad yn ffafrïo hyn. Mae gormod o haul yn gwneud i letys redeg yn gyflym i had, a gall sychu eich cynwysyddion. Ewch ati i hau yn ysbeidiol drwy gydol y flwyddyn i gael salad ffres o'r gwanwyn i ddiwedd yr hydref. Ond cofiwch adael i rai ohonyn nhw flodeuo, fel bod pryfed yn gallu elwa o fyrbryd iach hefyd.

RHOWCH GYNNIG AR Y RHAIN

Mae llawer o ryseitiau blasus ar gael sy'n cynnwys cynhwysion salad. Rhowch gynnig ar y ryseitiau yma, drwy garedigrwydd Sefydliad y Merched:

- [Sourdough summer starter](#)
- [Broad bean bruschetta](#)
- [Courgette, feta and dill fritters](#)
- [Green bean risotto](#)
- [Roasted garlic and chive dip](#)



Beth i'w wylio

Er y bydd llai o bryfed efallai wrth i chi fynd yn uwch, bydd y rhan fwyaf o falconïau yn gallu denu amrywiaeth o bryfed, chwilod, glöynnod byw, gwyfynod a gwenyn. Y cyfan sydd raid i chi ei wneud ydi creu'r amodau addas i'w temtio nhw i ymweld!



Mae angen ffynhonnell ddŵr ar bob bywyd gwyllt, felly helpwch eich pryfed peillio sy'n mynd heibio drwy roi powlen fas allan, a'i chadw'n lân a'i llenwi'n gyson, yn ddefrydol gyda dŵr glaw os gallwch chi ei gasglu. Rhowch ychydig o gerrig mân yn y dŵr fel bod gan bryfed rywle i lanio.



Cofiwch hefyd am yr adar! Fe fyddan nhw'n gwerthfawrogi dŵr hefyd. Er hynny, os ydych chi'n mynd i fwydo adar ar eich balconi, ystyriwch roi sticeri atal gwrthdrawiad ar eich ffenestri fel nad ydyn nhw'n cael eu drysu gan eu hadlewyrchiad. Hefyd, dylech osgoi cael clychau gwynt neu addurniadau disglair sy'n symud ac yn siglo yn y gwynt. Mae'r rhain yn gallu dychryn adar.



Rhwng mis Mai a mis Hydref, efallai y byddwch chi'n gweld ystumod hefyd, yn enwedig pan mae'r haul yn machlud. Mae gennym ni 17 rhywogaeth o ystumod yn y DU ac maen nhw'n gwledda ar bryfed - felly os gallwch chi wneud eich balconi yn gyfeillgar i bryfed, efallai y byddwch chi hefyd yn denu ystumod! Maen nhw'n hedfan drwy wibio'n gyflym ac yn eratig, wrth iddyn nhw fynd ar ôl eu hysglyfaeth. Gosodwch gadair i eistedd arni, lapio'ch hun mewn blanced, a mwynhau'r sioe.



Dechrau tyfu



BLYNYDDOL














LLUOSFLWYDD



















BYTHOLWYRDD



CYFEILLGAR I BRYFED PEILLIO

ENW	TYFU		NODIADAU
PERLYSIAU	Mae llawer o berlyisiau'n dod o ranbarth Môr y Canoldir ac yn goddef sychder, ond os ydych chi'n eu tyfu nhw mewn cynwysyddion, bydd angen i chi eu dyfrio'n rheolaidd mewn tywydd poeth. Ac mae pryfed peillio wrth eu bodd hefo nhw!		
Llyisiau'r Gwewyr	Ewch ati i hau yn yr awyr agored o ganol y gwanwyn, cynaeafu'r dail o fewn 8 wythnos	 	
Cennin Syfi	Ewch ati i hau yn yr awyr agored o ganol y gwanwyn. Cynaeafu drwy gydol yr haf	 	
Teim	Anodd tyfu o hadau. Prynwch blanhigyn ifanc neu gymryd toriadau ar ddiwedd y gwanwyn neu ddechrau'r haf. Cynaeafu'r dail drwy gydol y flwyddyn ar gyfer coginio	  	Mae posib creu lawnt ar gyfer defnydd ysgafn
Rhosmari			
Lafant			
Saets			
BLODAU BWYTADWY	Ychwanegwch y rhain at salad neu seigiau pasta – ond gadewch ddigon ar gyfer y pryfed hefyd!		
Capan cornicyll	Hau y tu allan o fis Fawrth i fis Mai. Blodau bwyttadwy trwy'r haf	 	Mae glöyn byw gwyn mawr a'r gwyn bach yn bwyta'r dail, gan eu denu oddi wrth eich llyisiau eraill
Melyn Mair (calendula)			
Glas yr ŷd			
Tafod yr ych			Mae'r dail yn flewog ac yn gallu achosi dermatitis i bobl sydd â chroen sensitif – gwisgwch fenig
LLYSIAU A SALADS	Tyfchwch lysiau rydych chi'n gwybod eich bod chi'n hoffi eu bwyta yn unig – ond rydyn ni'n meddwl y byddwch chi wrth eich bodd â'r rhain!		
Pys	Ewch ati i hau mewn sypiau yn yr awyr agored rhwng mis Mawrth a diwedd mis Mehefin		Gallwch eu dechrau'n gynharach y tu mewn hefyd
Ffa dringo	Ewch ati i hau yn yr awyr agored ym mis Mai a mis Mehefin		

ENW	TYFU		NODIADAU
Ffa'r gerddi	Ewch ati i hau yn yr awyr agored rhwng mis Mawrth a mis Ebrill		Gallwch eu dechrau'n gynharach y tu mewn hefyd
Corbwmpen	Ewch ati i hau y tu mewn ac wedyn plannu allan yn gynnar yn yr haf		Dim ond un planhigyn sydd arnoch chi ei angen, felly mae'n well prynu dim ond un planhigyn ifanc yn aml
Garleg	Plannwch y clofs yn yr hydref am gnwd y flwyddyn nesaf		Peidiwch â defnyddio garleg coginio o'r archfarchnad oherwydd efallai na fydd yn addas ar gyfer tywydd Prydain
Letys	Ewch ati i hau yn yr awyr agored o ganol y gwanwyn, cynaeafu'r dail o fewn 8 wythnos		Ewch ati i hau bob pythefnos ar gyfer salad drwy gydol yr haf
Tomatos	Ewch ati i hau yn yr awyr agored o ganol y gwanwyn. Cynaeafu drwy gydol yr haf	 	Mae tomatos "llwyn" yn tyfu mewn potiau neu fasgedi crog. Bydd tomatos "Cordon" yn tyfu ar i fyny yn erbyn ffon
BWYD AR GYFER BYWYD GWYLLT	Efallai na fyddwch chi'n gallu bwyta'r rhain, ond bydd eich bywyd gwyllt lleol yn mwynhau eu bwyta'n arw!		
Blodyn wŷ wedi'i botsio	Ewch ati i hau yn yr awyr agored o fis Mawrth i fis Mehefin. Blodau o fis Mehefin i fis Medi	 	
Eiddew	Lluosogi fel toriadau lled-aeddfed yn yr haf. Aeron ar gyfer bywyd gwyllt rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr	  	
Saffrwm sy'n blodeuo yn y gaeaf (colchicum)	Plannwch fylbiau o fis Mai i fis Mehefin. Blodeuo o fis Medi ymlaen	 	Yn edrych fel saffrwm ond mae'n rhywogaeth wahanol
Meillion	Ewch ati i hau hadau yn y gwanwyn neu ddechrau'r hydref	 	Mae posib creu lawnt ar gyfer defnydd ysgafn
Milddail	Rhannwch yn y gwanwyn, neu hau hadau yn yr awyr agored yn y gwanwyn	 	

COFIWCH AM FFRWYTHAU



Chwiliwch am amrywiaethau bach fydd yn gweithio'n dda mewn lle bach neu bot mawr, neu rai y mae posib eu tyfu yn erbyn wal.

- Afalau, gellyg, mafon cochion, aeron gleision, ceirios ac eirin.

Hwrê i iardiau

Mae llefydd bach yn hawdd eu rheoli ac wedi'u gwarchod yn well rhag rhew a gwyntoedd cryfion yn aml. Os ydych chi'n rhentu, defnyddiwch gynwysyddion sy'n hawdd eu trosglwyddo i le newydd.

Meddyliwch yn fertigol! Manteisiwch i'r eithaf ar waliau cerrig neu frics, tyfu planhigion dringo ac annog rhaeadrau o flodau o dybiau sy'n gyfeillgar i bryfed peillio.



Casglwch ddŵr glaw. Dylai pob pibell ar i lawr fynd i gasgen ddŵr, a chadwch eich gwteri'n glir. Defnyddiwch soseri o dan botiau i ddal dŵr gormodol.



Mae perlysiâu sy'n tarddu o Fôr y Canoldir wedi addasu'n dda i lawiad is. Ewch ati i dyfu amrywiaeth ohonyn nhw, o rosmari a lafant i saets a them, a byddwch yn bywiogi'ch coginio ac yn gwneud y pryfed lleol yn hapus iawn hefyd.



GAIR I GALL

Ewch ati i arddio ar gyfer sychder drwy wneud y mwyaf o gapasiti dal dŵr eich pridd. Rhowch gompost organig cartref, fel tomwellt, drosto – neu rywbeth mor syml â thoriadau glaswellt hyd yn oed – yn syth ar ôl dyfrio. Peidiwch â chloddio mwy na sydd raid, [a hau tail gwyrdd](#) mewn unrhyw bridd noeth ar ôl cynaeafu. Ystyriwch blanhigion lluosflwydd, sy'n defnyddio dŵr yn fwy effeithiol na phlanhigion blynyddol. A gadewch i feillion a milddail dyfu ar eich lawnt gan eu bod yn llawer llai agored i sychder, ac yn denu pryfed,” meddai prif arddwr Garden Organic, Emma O'Neill.

Mwynhau mawn

Mae gerddi cynwysyddion yn edrych yn anhygoel pan fydd casgliad o wahanol dybiau a photiau ynddyn nhw, yn llawn dop o lysiau, salads, ffrwythau a blodau.

Ond gofalgwch eich bod chi'n llenwi'r cynwysyddion hynny gyda chompost heb fawn! Mae ar gael yn rhwydd ym mhob canolfan arddio dda, ond edrychwch yn fanwl ar y label cyn prynu.

Mae posib i'r mawn fod yn gudd hefyd, mewn pob math o lefydd. Mae'r rhan fwyaf o fadarch a salads mewn bagiau mewn archfarchnadoedd wedi cael eu tyfu mewn mawn, a phan fyddwch chi'n prynu planhigion gwely neu blanhigion tŷ, mae'r rhain yn aml wedi'u gwreiddio mewn mawn



Ond pam mae hyn yn gymaint o broblem?

Wel, mae mawn yn adnodd anhygoel. Mae mawndiroedd yn y DU yn storio carbon, gan ei stopio rhag cael ei ryddhau i'r atmosffer a chyfrannu at newid hinsawdd. Maen nhw hefyd yn helpu i leihau llifogydd o ardaloedd ucheldir i drefi, maen nhw'n helpu i hidlo dŵr, ac maen nhw'n gynefinoedd anhygoel ar gyfer rhywogaethau prin a rhywogaethau mewn perygl.

Y broblem ydi, mae mawn yn ffurfio'n araf. Yn anhygoel o araf. Mae'n tyfu ar gyfradd o 1mm y flwyddyn – mae'n cymryd 1,000 o flynyddoedd i ffurfio dim ond un metr o fawn. 'Allwn ni ddim dal ati i'w gloddio a'i roi mewn bagiau!

Mae digonedd o ddewisiadau eraill gwych ar gael yn lle mawn – gan gynnwys gwneud eich compost eich hun – felly edrychwch ar y label a gwneud yn siŵr nad ydych chi'n defnyddio mawn.

Gerddi godidog

Pyllau perffaith

Mae angen dŵr ar bob bywyd gwyllt – ac fe allwch chi helpu, dim ots pa mor fawr neu fach ydi eich llecyn chi. Gallwch ddenu mursennod a gweision y neidr, brogaod, madfallod dŵr, adar, draenogod ac ystumod – y rheolwyr plâu naturiol gorau ar gyfer yr ardd.

Meddyliwch yn greadigoll! Gallwch ddefnyddio powlen golchi llestri, pot planhigion mawr, hen sinc, neu lawer o gwynsyddion eraill sy'n dal dŵr, ond gwnewch yn siŵr bod creaduriaid yn gallu mynd i mewn ac allan ohonyn nhw. Mae hyn yn golygu naill ai ei suddo i'r pridd neu ychwanegu rampiau i gael mynediad. Os oes gennych chi bwll wedi'i suddo, defnyddiwch bentwr o foncyffion neu gerrig yn y dŵr fel bod y creaduriaid yn gallu glanio.



Gwnewch yn siŵr bod y pwll yn cael rhywfaint o olau haul, ond nid haul llawn drwy'r dydd. Gorchuddiwch y gwaelod gyda haen o raean a chreigiau, a gadewch iddo lenwi â dŵr glaw.

Dim ond dau neu dri phlanhigyn fydd arnoch chi eu hangen – efallai un planhigyn tal sy'n gwthio i fyny, fel brwynen flodeuog, a phlanhigyn sy'n aros o dan y dŵr fel cyrddail neu fyrdd-dail ysbigog.

Denu draenogod!

Mae draenogod yn crwydro ymhell ac agos yn ystod y nos. Gallwch eu helpu drwy siarad gyda'ch cymdogion a thorri twll sgwâr 13cm yn eich ffens, neu gloddio sianel, i gysylltu'ch gerddi.

Mae deiet draenog yn amrywiol, felly cofiwch osgoi defnyddio plaladdwyr a pheledi gwllthod. Tyfych lawer o blanhigion gwahanol a gadewch rai darnau o laswellt ychydig yn dalach i annog digon o infertebrata i'ch ffrindiau pigog wledda arnyn nhw. Bydd pentwr o goed yn denu pryfed clustiog, nadroedd cantroed a phryfed lludw.


Byrbrydau o'r awyr

Gallwch gynyddu maint eich gardd drwy feddwl ar i fyny, a defnyddio waliau, ffensys, trelis a hyd yn oed toeau. Mae coed a llwyni ffrwythau ar gael mewn pob math o amrywiaethau, a bydd mathau corrach yn tyfu mewn llefydd bach, mewn potiau, ac yn erbyn cordon. Rhowch gynnig ar afalau, gellyg, aeron gleision, mafon cochion, cwins, ceirios, eirin a hyd yn oed ffigys ac eirin gwlanog. Gwiriwch a oes angen i chi brynu mwy nag un llwyn neu goeden ar gyfer peillio.



GAIR I GALL

Mae cyfnewid hadau'n helpu pobl i rannu eu hadau, ond mae hyn hefyd yn cefnogi tyfwyr a garddwyr newydd drwy sicrhau bod hadau wedi'u haddasu'n lleol ar gael iddyn nhw drwy system gyfrannu, gan roi hwb i'w siawns o lwyddo wrth arddio! Dysgwch fwy am Incredible Edible a darganfod eich grŵp lleol - neu sut i ddechrau un - yma.



Ble i ddod o hyd i ragor o wybodaeth

Garden Organic

Drwy ymgyrchu, cyngor, gwaith cymunedol, cadwraeth ac ymchwil, mae'r elusen garddio cynaliadwy [Garden Organic](#) yn helpu garddwyr i feithrin byd iachach a mwy bioamrywiol a chynaliadwy. Dilynwch @gardenorganicuk.

Incredible Edible

Gweledigaeth [Incredible Edible's](#) yw creu cymunedau caredig, hyderus a chysylltiedig drwy bŵer bwyd. Os ydych chi'n bwyta, rydych chi'n gallu bod yn rhan o hyn.

Sefydliad y Merched


Mae [Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched](#) yn gweithio i rymuso merched i wneud cyfraniadau cadarnhaol at eu cymunedau, ymgyrchu ar amrywiaeth o bethau sy'n bwysig iddyn nhw, cefnogi ei gilydd a dod o hyd i hwyl a chyfeillgarwch.



Yr Ymddiriedolaethau Natur

[Ein pwrpas](#) ni yw dod â bywyd gwylt yn ôl, grymuso pobl i gymryd camau ystyrlon dros fyd natur, a chreu cymdeithas gynhwysol lle mae natur yn bwysig.

Ein gweledigaeth ni yw byd naturiol ffyniannus, gyda'n bywyd gwylt a'n cynefinoedd naturiol yn chwarae rhan werthfawr wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, a phawb wedi'u hysbrydoli i gymryd rhan yn adferiad byd natur.



Am gynllun Gerddi'r Coroni ar gyfer Bwyd a Natur



Mae Gerddi'r Coroni ar gyfer Bwyd a Natur yn bartneriaeth uchelgeisiol rhwng Sefydliad y Merched, Garden Organic, Incredible Edible a'r Ymddiriedolaethau Natur. Wedi'i ysbrydoli gan Ei Fawrhydi y Brenin, rydym yn cefnogi cymunedau i dyfu bwyd mewn ffordd sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt. Gyda chyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, bydd y bartneriaeth yn annog mwy o bobl i gymryd camau lleol ar y cyd sy'n cael

effaith gadarnhaol ar fyd natur, iechyd a lles.

Drwy gyflwyno Gerddi'r Coroni, hoffem weld cymunedau'n cael eu hysbrydoli i gymryd camau lleol sy'n cael effaith gadarnhaol ar y cyd – gan gynyddu byd natur yn y llefydd ble rydyn ni'n byw ac o'u hamgylch, a gwella iechyd a lles poblogaeth y DU.

Gwnaed hyn yn bosibl gan gyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol





**CORONATION
GARDENS**
For food & nature

Mae Gerddi'r Coroni
ar gyfer Bwyd a Natur
yn bartneriaeth rhwng
Garden Organic,
Incredible Edible,
Sefydliad y Merched a'r
Ymddiriedolaethau Natur.
Rydyn ni wedi dod at ein
gilydd i annog pawb i dyfu
bwyd mewn ffordd sy'n
gyfeillgar i fywyd gwyllt.

SHUTTERSTOCK



theWI

garden.
organic

mycoronationgarden.org

#mycoronationgarden